

Archwiliad Clinigol Cenedlaethol Barnau teulu a gofalwyr ar ansawdd gofal ysbyty

Mae'r holiadur hwn yn rhan o Archwiliad Clinigol Cenedlaethol sy'n ceisio gwella ansawdd y gofal mae ysbytai yn ei ddarparu i bobl sydd â dryswch neu broblemau cof. Rydym yn gwahodd gofalwyr (aelodau'r teulu neu weithwyr allweddol) sy'n ymweld â'r unigolyn gyda phroblemau cof yn ystod eu harhosiad yn **yr ysbyty hwn** rhwng **Medi 2022 ac Ionawr 2023** i rannu eu barn am y gofal a dderbyniwyd a'r cyfathrebu rydych wedi ei gael gyda staff yr ysbyty. Defnyddir yr wybodaeth hon i helpu ysbytai eraill wella safonau gofal trwy amlygu pethau sy'n cael eu gwneud yn dda a meysydd sydd angen eu gwella. Rydym yn croesawu unrhyw adborth a bydd adroddiadau yn crynhoi hyn yn cael eu cyhoeddi yn 2023.

Wedi i chi gwblhau'r holiadur, defnyddiwch yr amlen ragdal atodedig a'i hanfon yn syth yn ôl at Dîm y Prosiect yng Ngholeg Brenhinol y Seiciatryddion. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi postio'r holiadur erbyn **3 Ionawr 2023**, os byddwn yn derbyn ymateb wedi'r dyddiad hwn, efallai na fyddwn yn gallu cynnwys eich ymatebion yn ein hadroddiad. Mae'r holiadur hwn hefyd ar gael ar-lein: www.nationalauditofdementia.org.uk

Mae'r cerdyn post a atodwyd i'r holiadur hwn yn cynnig cyfle i chi gystadlu am wobr i ennill un o bum taleb £50 ar gyfer siop stryd fawr o'ch dewis chi. **Dychwelwch y cardiau post ar wahân a pheidiwch â rhoi'r rhain yn yr amlen ragdal.**

Cyfrinachedd:

- Mae'r holiadur hwn yn gwbl ddiennw ac ni fydd staff yr ysbyty yn gweld eich ymatebion.
- Trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon, rydych chi'n cydsynio i ddefnyddio eich atebion yn yr archwiliad cenedlaethol, yn cynnwys yn ein hadroddiadau. Ceir rhagor o wybodaeth am sut ydyn ni'n defnyddio'r data yn ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan dan 'Llywodraethu Gwybodaeth'.
- Os byddwch chi'n penderfynu y byddai'n well gennych chi beidio llenwi'r holiadur, mae hyn yn iawn ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y gofal a ddarperir i'r unigolyn yr ydych yn gofalu amdano.
- Nid ffurflen gwyno yw hon, bydd y tîm prosiect yn edrych ar yr holl ymatebion, ond oherwydd nad ydym yn gofyn am eich enw, ni fyddwn yn gallu mynd ar drywydd eich pryderon neu gwynion unigol. Os hoffech chi wneud cwyn, siaradwch gyda'r gwasanaeth neu'ch Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) lleol a fydd yn gallu cynnig cyfrinachol ar wneud cwyn.
- Os byddwch yn rhoi gwybod i ni am risg o niwed i glaf, efallai y bydd angen i ni gysylltu â'r ysbyty ar unwaith.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol, cysylltwch â Thîm y Prosiect:

Cyfeiriad:

Tîm Prosiect NAD (CCQI)
Royal College of
Psychiatrists
21 Prescott Street
Llundain
E1 8BB

Ffôn:

0208 618 4268
(9am i 5pm)

E-bost:

nad@rcpsych.ac.uk

Gwefan:

www.nationalauditofdementia.org.uk

Mae'r Holiadur Gofalwr NAD hefyd ar gael yn Gymraeg

<https://online1.snapsurveys.com/32noci>

